


Yr Eglwys yng Nghymru

**Gwasanaeth o Gadarnhad
ar gyfer Wardeniaid ac
Aelodau o'r Cyngor Plwyf Eglwysig**




The Church in Wales

**A Service of Affirmation
for Churchwardens and
Parochial Church Councillors**

Yr Eglwys yng Nghymru

**Gwasanaeth o Gadarnhad
ar gyfer Wardeniaid ac
Aelodau o'r Cyngor Plwyf Eglwysig**



The Church in Wales

**A Service of Affirmation
for Churchwardens and
Parochial Church Councillors**

1 Cyflwyniad

Fy mrodyr a'm chwirydd, cawsom ein galw fel teulu Cristnogol yn yr esgobaeth a'r plwyf i ddathlu gras Crist, cymdeithas yr Ysbryd, a chariad Duw ein Tad. Yn y teulu hwn edrychwn ar ddiaconiaid, offeiriaid a'r Esgob fel dysgawdwy, arweinyddion a bugeiliaid. Cyfnerthir y weinidogaeth hon ym mhob plwyf gan wardeniaid ac aelodau'r Cyngor Plwyf Eglwysig, a chan eraill sy'n pregethu, yn dysgu, ac sydd trwy eu hesiampl dda yn datgelu gogoniant Crist yn y byd. Daw'r rhai a gafodd eu hethol neu eu henwebu i wasanaethu fel wardeniaid neu fel aelodau o'r Cyngor Plwyf Eglwysig o'ch blaen chwi, eu brodyr a'u chwirydd yng Nghrist, i gadarnhau'r datganiadau a wnaethant. Tystiwn i'w haddewidion a gweddïwn ar iddynt gael eu galluogi a'u hannog ym mhob peth a ymddiriedwyd iddynt.

Gweddï ddistaw

Arglwydd Dduw,
ffynhonnell pob daioni a goleuni,
anfonaist dy unig Fab, Gair y bywyd,
i ddatgelu dirgelwch dy gariad i'r byd.
Bendithia ein brodyr a'n chwirydd
a ddaw i gysegro eu hunain i'th wasanaeth.
Caniatâ iddynt fyfyrïo ar dy air,
bod yn ymroddgar mewn gwasanaeth
ac yn ddoeth eu cyngor,
gan gyhoeddi'r Newyddion Da
mewn gair a gweithred;
trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

2 Y Gair

Un o'r darlenniadau canlynol:

Exodus 3. 1-6

Josua 1. 1-9

Eseia 6. 1-8

Mathew 5. 1-6

Marc 8. 27-38

Ioan 15. 1-17

Actau 1. 1-8

Rhufeiniaid 12. 1-12

1 Corinthiaid 12. 4-13

Effesiaid 4. 7-16

1 Timotheus 6. 11-16

2 Timotheus 3. 10 - 4.5

Galw Moses

Comisiwn Josua

Galw Eseia

Y Gwynfydau

'Ti yw'r Crist'

Y Wir Winwydden

'Byddwch yn derbyn nerth'

Aberth byw

Amrywiaeth doniau

Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd

Ymdrecha ymdrech lew

'Bydd yn barod bob amser'

1 Introduction

My brothers and sisters, we are called as a Christian family in the diocese and in the parish to celebrate the grace of Christ, the fellowship of the Spirit and the love of God our Father.

Within this family we look to deacons, priests and the Bishop as teachers, leaders and shepherds. In each parish this ministry is strengthened by churchwardens and parochial church councillors, and by others who preach, who teach and who by their good example reveal Christ's glory in the world. Those who have been elected or nominated to serve as wardens and councillors come before you, their brothers and sisters in Christ, to re-affirm the declarations they have made. We witness their promises and also pray that they may be empowered and encouraged in all that is entrusted to them.

Silent prayer

Lord God,
source of all goodness and light,
you sent your only Son, the Word of life,
to reveal to the world the mystery of your love.
Bless our brothers and sisters
who come to dedicate themselves to your service.
Grant that they may meditate on your word,
be devoted in service and wise in their counsels,
proclaiming the Good News
by what that say and what they do;
through Christ our Lord. **Amen.**

2 The Word

One of the following readings:

Exodus 3. 1-6
Joshua 1. 1-9
Isaiah 6. 1-8
Matthew 5. 1-6
Mark 8. 27-38
John 15. 1-17
Acts 1. 1-8
Romans 12. 1-12
1 Corinthians 12. 4-13
Ephesians 4. 7-16
1 Timothy 6. 11-16
2 Timothy 3. 10 - 4.5

The call of Moses
Joshua's commission
The call of Isaiah
The Beatitudes
'You are the Christ'
The true vine
'You will receive power'
A living sacrifice
Varieties of gifts
One Lord, one faith, one baptism
Fighting the good fight
'Be urgent in and out of season'

3 Datganiadau

WARDENIAID

E ac E, cawsoch eich penodi i wasanaethu fel *wardeniaid* yn y *Plwyf hwn*. Swyddogion yr Esgob yw *wardeniaid* ac maent yn rhannu yn ei gyfrifoldeb ef tuag at braidd Crist. A wnewch chi ymdrechu i gyflawni eich swydd, [*gyda chymorth yr is-wardeniaid*,] gan arwain ac annog eich cyd-Gristnogion ym mywyd yr Eglwys?

Wardeniaid: **Gwnaf.**

Gwahoddaf chwi yn awr i ailadrodd y datganiadau a wnaethoch i'r Esgob.

Wardeniaid: Rwyf yn datgan fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru bod hawl gennyf i wasanaethu fel swyddog eglwys ac y ceisiaf gyflawni fy nyletswyddau gyda chymorth ac ymddiriedaeth Duw.

Ymdrechaf i weithio er lles teyrnas Dduw drwy fyw fy mywyd ag ymroddiad mewn addoliad a thystiolaeth, er gogoniant i'w enw sanctaidd.

Gall y gweinidog drosglwyddo'r ffyn i'r wardeniaid.

Arglwydd Dduw,
ymddiriedaist yn dy wasanaethyddion *E ac E*
i wasanaethu fel *wardeniaid* yn y plwyf hwn.
Wrth gynnal bywyd y teulu Cristnogol
bydded iddynt ddirnad dy bwrpas cariadus,
drwy ofalu am dy blant
a rhannu yn ein llawenydd a'n gofidiau;
trwy ein Harglwydd Iesu Grist. **Amen.**

3 Affirmations

CHURCHWARDENS

N and *N*, you have been appointed to serve as *churchwardens* in *this parish*. Churchwardens are officers of the Bishop and share in his responsibility towards the members of Christ's flock. Will you endeavour to fulfil your office, [*with the assistance of the churchwardens,*] leading and encouraging your fellow Christians in the life of the Church?

Churchwardens: **I will.**

I now invite you to re-affirm the declaration which you have made to the Bishop.

Churchwardens: I declare that as a member of the Church in Wales
I am entitled to serve as an officer of the church
and that I will seek to fulfil my responsibilities
with God's help and trust.

I will endeavour to work for the good of God's kingdom
by leading my life with devotion and commitment
both in worship and witness,
to the glory of his holy name.

The minister may hand the wardens their staves.

Lord God,
you have entrusted your *servants N* and *N*
to serve as *churchwardens* in this parish.
May *they* discern your loving purpose,
faithfully supporting the life of the Christian family,
by caring for your children
and sharing in our joys and sorrows;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

AELODAU O'R CYNGOR PLWYF EGLWYSIG

Fel y rhai a etholwyd i wasanaethu fel aelodau o'r Cyngor Plwyf Eglwysig, yr ydych yn dod â chyfoeth ac amrywiaeth profiad oes i wasanaeth y plwyf hwn. Gweddïwn y bydd i chwi ganfod yr amser a'r cyfle i gyfrannu'n eang at waith a thystiolaeth teyrnas Dduw, a gwahodddwn chwi i gadarnhau eich ymroddiad a'ch penderfyniad yn y weinidogaeth hon.

A wnewch chi, drwy eich ymroddiad yn y Cyngor Plwyf Eglwysig, ymdrechu i gynnal bywyd yr Eglwys yn y plwyf hwn?

Aelodau: **Gwnawn.**

A fyddwch yn ystyrlon o'r cyfrifoldebau a osodir ar y Cyngor Plwyf Eglwysig dros holl waith y plwyf, ac a wnewch chi geisio annog eich teulu, eich cyfeillion a'ch cymdogion yn y bywyd Cristnogol?

Aelodau: **Gwnawn.**

Rydym yn datgan fel aelodau o'r Eglwys yn y plwyf hwn bod hawl gennym i wasanaethu fel aelodau o'r Cyngor Plwyf Eglwysig, ac y byddwn yn ymdrechu i gyflawni ein dyletswyddau â ffydd a gofal yn enw Iesu Grist ein Harglwydd.

Gellir cyflwyno cerdyn gweddi neu symbol arall i bob aelod.

Y GYNULLEIDFA

Cyfarcha'r gweinidog y gynulleidfa.

Fel tystion i'r datganiadau a wnaethpwyd gan ein wardeniaid a'r aelodau o'r Cyngor Plwyf Eglwysig, gwahoddaf chwi yn awr i weddio drostynt ac i'w cefnogi a'u hannog yn eu gwasanaeth. Fel teulu Duw yn y plwyf hwn, fe'n gelwir i gario beichiau ein gilydd ac i rannu ein llawenydd fel y bo i ni gyflawni cyfraith Crist. Gweddïwn y bydd i ni, gyda chymorth Duw, orchfygu'r holl demtasiwn tuag at ymraniad, er mwyn i eraill adnabod yr Arglwydd sy'n fyw ynom.

CHURCH COUNCILLORS

As those elected to serve as church councillors you bring the richness and variety of your life's experience to the service of this parish. We pray that you will find the time and opportunity to contribute widely in the work and witness of God's kingdom, and I invite you to affirm your commitment and resolve in this ministry.

Will you endeavour to support the life of the Church in this parish by your commitment within the Parochial Church Council?

Members: **We will.**

Will you be mindful of the responsibilities laid upon the Church Council for the whole life of the parish, and will you seek to encourage your family, friends and neighbours in the Christian life?

Members: **We will.**

**We declare that as members of the Church in this parish
we are entitled to serve as church councillors,
and that we will endeavour to fulfil our duties
with consideration and faith,
in the name of Jesus Christ our Lord.**

A prayer card or some other symbol may be presented to each councillor.

CONGREGATION

The minister addresses the congregation.

Having witnessed the declarations our churchwardens and parochial church councillors have made, I invite you now to pray for them and to support and encourage them in their service. As the family of God in this parish, we are called to bear one another's burdens and to share one another's joys that we may fulfil the law of Christ. Let us pray that, with God's help, we may overcome all temptation to disunity, that others may recognise the Lord who lives in us.

4 Y Gweddïau

Y Gweinidog:

Hollalluog Dduw ein Tad,
diolchwn i ti am ein cymdeithas yn nheulu'r ffydd
ynghyd â phawb a fedyddiwyd yn dy enw.
Cadw ni'n ffyddlon i'n bedydd,
a gwna ni felly yn barod ar gyfer y dydd hwnnw
pryd y perffeithir y greadigaeth gyfan yn dy Fab,
ein Gwaredwr Iesu Grist. **Amen.**

Warden:

O Dduw ein Tad,
gweddiwn dros *É* ein Heskob
a phawb sy'n bugeilio praidd Crist yn y plwyf hwn.
Dyro i ni ddoethineb a dirnadaeth
i rannu yng ngwaith dy weinidogaeth,
i groesawu dy bobl,
i wrando ac i ofalu,
i gryfhau ac i alluogi,
fel y bo i'th deyrnas dyfu yma,
trwy ein Harglwydd Iesu Grist. **Amen.**

Aelod o'r Cyngor Plwyf Eglwysig:

Arglwydd Iesu Grist,
galluoga ni i fyw yn driw i'r datganiadau a wnaethom:
i ymrwymo ein hunain i addoliad a gweddi,
i fod yn ffyddlon yng nghariad dy enw,
ac i ddisgwyl am y dydd
pan lenwir y ddaear â gwybodaeth o'th gariad. **Amen.**

Gellir ychwanegu gweddïau eraill (Gweler Nodyn 5).

4 The Prayers

The minister:

Almighty God and Father,
we thank you for our fellowship in the household of faith
with all who have been baptized in your name.
Keep us faithful to our baptism,
and so make us ready for that day
when the whole creation shall be made perfect in your Son,
our Saviour, Jesus Christ. **Amen.**

A Warden:

God our Father,
we pray for *N* our Bishop
and all who tend the flock of Christ in this parish.
Give us also wisdom and insight
to share in the work of ministry,
to welcome your people,
to listen and to care,
to strengthen and enable,
that your kingdom here may grow,
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

A member of the Parochial Church Council:

Lord Jesus Christ,
enable us to live by the declarations we have made:
to commit ourselves to prayer and worship,
to be faithful in the love of your name,
and to look for the day
when the world will be filled with the knowledge of your love. **Amen.**

Other prayers may be added.

Oni ddefnyddir Gweddî'r Arglwydd rhywle arall yn y gwasanaeth fe'i dywedir yma.

Gweddîwn yn hyderus
ar y Tad:

Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro i ni heddiw
ein bara beunyddiol;
a maddau i ni ein troseddau,
fel yr ŷm ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd
yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag
yr Un drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r
deyrnas a'r gallu
a'r gogoniant am byth. Amen.

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni,
gweddîwn yn hyderus:

Ein Tad,
yr hwn wyt yn nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef,
felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw
ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau
i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Arglwydd Iesu Grist, Mab y Duw byw,
dysg ni i gerdded yn dy ffyrdd ag ymddiriedaeth gynyddol
i dderbyn dy wirionedd yn fwy ffyddlon,
ac i rannu dy fywyd yn fwy cariadus.
Tywys ni yn ein bywyd yn yr Eglwys
trwy nerth yr Ysbryd Glân,
inni ddyfod fel un teulu
i deyrnas y Tad,
i fyw a theyrnasu gyda thi yn dragywydd. Amen.

Yr Arglwydd fyddo gyda chwi.
A chyda thithau.

Bydded i Dduw gras a'ch galwodd i'w ogoniant tragwyddol yng Nghrist
eich adfer, eich sefydlu a'ch cryfhau yn y Ffydd,
a bendith Duw Hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. Amen

6 *Service of Affirmation*

If the Lord's Prayer is not to be used elsewhere in the service it is said here.

Let us pray with confidence
to the Father:

**Our Father in heaven,
hallowed be your name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today
our daily bread.
Forgive us our sins,
as we who forgive those
who sin against us.
Save us from
the time of trial
and deliver us from evil.
For the kingdom, the power
and the glory are yours,
now and for ever. Amen.**

As our Saviour taught us,
we boldly pray:

**Our Father, who art in heaven,
hallowed be thy name,
thy kingdom come,
thy will be done,
on earth as it is in heaven.
Give us this day
our daily bread.
And forgive us our trespasses
as we forgive those
who trespass against us.
And lead us not
into temptation,
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever. Amen.**

**Lord Jesus Christ, Son of the living God,
teach us to walk in your way more trustfully,
to accept your truth more faithfully,
and to share your life more loving.
By the power of the Holy Spirit
guide us in our life in the Church,
that we may come as one family
to the kingdom of the Father,
to live and reign with you for ever. Amen.**

The Lord be with you.
And also with you.

The God of grace who called you to his eternal glory in Christ, restore, establish and strengthen you in the Faith,
and the blessing of God almighty, the Father, the Son and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. **Amen**


Nodiadau

- 1 Dylid cynnal y gwasanaeth ar amser addas ar ôl Ymweliad yr Esgob neu'r Archddiacon. Y mae'n bwysig fod pob un sy'n cynnal swydd yn mynychu a dylid hysbysu achlysur y gwasanaeth yn y cyfarfod(ydd) plwyf blynyddol.
- 2 Fel arfer, dylid defnyddio'r gwasanaeth fel rhan o weithred o addoliad cyhoeddus a dylid defnyddio'r darlleniadau o'r Ysgrythur a benodir ar gyfer y gwasanaeth hwnnw gan hepgor wedyn Weinidogaeth y Gair (adran 2) o'r ffurf hon. Os yw'n briodol gwneud hynny, gellir cymryd lle un neu fwy o'r darlleniadau a ddarparwyd yn y ffurf hon.
- 3 Yn y Cymun Bendigaid, bydd y gwasanaeth yn cymryd lle Gweddïau'r Eglwys. Gellir defnyddio'r weddi gynulleidfaoedd olaf a'r fendith yn union cyn diwedd y Cymun Bendigaid.
- 4 Yn y Foreol a'r Hwyrrol Weddi, bydd y gwasanaeth yn cymryd lle y Gweddïau a'r Ymbiliau sy'n dilyn y Credo ac fe ellir dweud colect y dydd adeg y gweddïau ychwanegol.
- 5 Y mae'r Gweddïau o Ymgysgriad a'r Gweddïau Terfynol (8-32, tudalennau 55-60) o'r Ffurf Arall ar Gyfer y Foreol a'r Hwyrrol Weddi yn arbennig o addas ar gyfer eu defnyddio adeg y Gweddïau (adran 4).
- 6 Fel arfer dylai'r Wardeniaid ddweud eu hymateb a'u datganiad gyda'i gilydd.

Notes

- 1 The service should be held at an appropriate time after the Bishop's or Archdeacon's Visitation. It is important that all holding office should attend and that the occasion of the service be made known at the annual parish meeting(s).
2. The service should normally be used as part of a public act of worship, and the Bible readings should be those appointed for that service, the Ministry of the Word from this order (section 2) then being omitted. If it is appropriate to do so, one or more of the readings provided in this order may be substituted.
- 3 At the Eucharist, the service replaces the Prayers of the Church. The final congregational prayer and blessing may be used immediately before the conclusion of the Eucharist.
- 4 At Morning or Evening Prayer, the service replaces the Prayers and Intercessions which follow the Creed and the collect of the day may be said during the additional prayers.
- 5 The Prayers of Dedication and Concluding Prayers (8-32, pages 55-60) from An Alternative Order for Morning and Evening Prayer are particularly appropriate for use during the Prayers (section 4).
- 6 Normally the Churchwardens should say their response and declaration together.





ISBN: 0 85326 101 6

Price / Pris: £3.00

Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru
Produced by the Church in Wales Publications Department

© 1997 Gwasg yr Eglwys yng Nghymru / Church in Wales Publications